**6 Awst 2020**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymateb i'r Adroddiad Sbotolau PEEL: Dargyfeirio Dan Bwysau**

Mae'r cyffredinoliadau a wnaed o fewn yr adroddiad sbotolau cenedlaethol yn dangos gwahaniaeth mewn safonau gwasanaeth, er bod heddluoedd yn wynebu heriau tebyg o ran cyflenwi a galw. Fel un o'r ardaloedd heddlu cyntaf i dderbyn arolygiad o dan y drefn Asesiad PEEL Integredig newydd, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau â'i hymdrechion i wella'r diffygion a nodwyd o fewn ei adroddiad ei hun. Er enghraifft, mae'n dda gennyf ddweud bod Uned Seiberdroseddu Digidol Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau'r amser mae'n cymryd i gefnogi drwy arian ar gyfer capasiti ymchwiliol ychwanegol. Dyma faes yr wyf wedi parhau i'w gefnogi drwy ariannu capasiti ymchwiliol ychwanegol, ac mae'n un yr wyf yn fodlon bod y buddion o'r buddsoddiad yn cael eu gwireddu'n bendant.

Yr wyf wedi croesawu cyflwyniad yr Heddlu o Swyddog Gwireddu Buddion, a ddylai helpu'r heddlu i arddangos y gwerth a ychwanegir drwy brosiectau arloesol.

Mae fy nhîm a minnau wrthi'n gweithio'n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys er mwyn gwella profiad dioddefwyr. Yr wyf yn cael fy modloni a'm hannog yn gyson gan barodrwydd Heddlu Dyfed-Powys i gymryd rhan yn ymarferion peilot AHGTAEM. Edrychaf ymlaen at weld canlyniadau'r Asesiad Gwasanaeth Dioddefwyr newydd. Heddlu Dyfed-Powys fydd un o'r heddluoedd cyntaf i'w dreialu.